Cynllun Talu Syml.

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU

# Y ffordd fwyaf fforddiadwy sy gennym i dalu am Drwydded Deledu.



## Canllaw i gynghorwyr.

# Cyflwyno'r Cynllun Talu Syml.

Mae deddfwriaeth wedi'i chyflwyno sy'n caniatáu i ni gynnig ffordd fwy fforddiadwy o dalu.


Felly fe grewyd y Cynllun Talu Syml ar gyfer y rhai sydd mewn trafferthion ariannol.

Dyma'n cynllun mwyaf fforddiadwy a thrwy gyfeirio eich cleientiaid, gallwch eu helpu i barhau wedi'u trwyddedu, gan fod taliadau **tua £3 yr wythnos**.

Mae'r canllaw yma'n ceisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

## Pwy sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Talu Syml?

Cleientiaid y byddwch yn eu cyfeirio sy'n cael trafferth talu am Drwydded Deledu.



## Sut mae'r Cynllun Talu Syml yn gweithio?

Gall eich cleientiaid ddewis un ai cynllun talu bob pythefnos neu bob mis. Os byddan nhw'n cadw at y cynllun, bydd y taliadau **tua £3 yr wythnos** ar gyfartaledd.

## 1. Taliadau awtomatig

Mae'n bosib casglu taliadau o gyfrifon banc eich cleientiaid bob mis trwy drefnu Debyd Uniongyrchol. Neu gallant drefnu Awdurdod Talu Parhaol (CPA)[1], a bydd taliadau yn cael eu casglu bob mis neu bob pythefnos o'u cerdyn debyd neu gredyd.

| | |
|---|---|
| **Debyd Uniongyrchol** | • Bob mis |
| **CPA[1]** | • Bob mis<br>• Bob pythefnos |

## 2. Taliadau â llaw

Fe all eich cleientiaid dalu dros y cownter hefyd mewn unrhyw siop PayPoint, trwy'r wefan, dros y ffôn, gan ddefnyddio ap TVL Pay, neu drwy ddolen Paythru a fydd yn dod trwy SMS i'w ffôn clyfar.

| | |
|---|---|
| **Cerdyn y Cynllun Talu Syml** | • PayPoint |
| **Cerdyn credyd/debyd** | • Y we • Ffôn<br>• SMS • Ap TVL Pay |

[1] Awdurdod Talu Parhaol yw pan fydd taliad yn cael ei gasglu'n awtomatig o'u cerdyn credyd neu ddebyd.

## Beth fydd yn digwydd os bydd taliad yn cael ei fethu?

Mae'r Cynllun Talu Syml yn hyblyg os bydd taliadau yn cael eu methu. Os bydd un o'ch cleientiaid yn methu taliad, gellir ei rannu ar draws gweddill y cynllun yn hytrach na gorfod talu dwbl y swm y mis nesaf i ddal i fyny.

Mae'r tabl isod yn cymharu'r Cynllun Talu Syml â Debyd Uniongyrchol Misol safonol ar gyfer Trwydded Deledu gyntaf.

| Mis | Cynllun Talu Syml Bob mis | Cynllun Debyd Uniongyrchol misol presennol[2] |
|---|---|---|
| 1 | £14.18 | £28.25 |
| 2 | **Methu taliad** | **Methu taliad** |
| 3 | **£15.50** | **£56.50** |
| 4 | £15.40 | £28.25 |

## Os bydd eich cleientiaid yn methu taliad, bydd eu taliad nesaf yn llawer is ar ein Cynllun Talu Syml.

Byddwn yn anfon cynllun talu diwygiedig atynt, i roi gwybod beth fydd eu rhandaliadau newydd.

Ac, os byddan nhw'n rhoi rhif eu ffôn symudol neu gyfeiriad e-bost i ni wrth gofrestru, gallwn anfon SMS neu e-bost atynt os byddan nhw'n methu taliad, i'w helpu i ddod yn ôl i drefn.

**Os bydd eich cleientiaid yn methu tri mis o daliadau ar ôl ei gilydd, byddan nhw'n cael eu tynnu oddi ar y Cynllun Talu Syml.**

[2] Dan y rheoliadau presennol ar gyfer y cynllun Debyd Uniongyrchol misol, mae angen talu am y drwydded gyntaf o fewn y chwe mis cyntaf, felly dyna pam mae'r taliadau cychwynnol yn uwch.

## Beth os na fydd un o'ch cleientiaid yn cael ymuno â'r Cynllun Talu Syml?

Mae yna ffyrdd eraill i'ch cleientiaid dalu am Drwydded Deledu. Fe allan nhw rannu'r gost gydag amryw o ddewisiadau Debyd Uniongyrchol neu gerdyn talu Trwyddedu Teledu.

## Beth os bydd eich cleientiaid yn cael eu tynnu oddi ar y Cynllun Talu Syml?

Os bydd eich cleient yn methu **tri mis o daliadau yn olynol** bydd yn cael ei dynnu oddi ar y Cynllun Talu Syml.

Fodd bynnag, mae Trwyddedu Teledu bob amser yn rhoi pob cyfle i bobl dalu am drwydded a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu i reoli'r gost er mwyn gallu parhau wedi'u trwyddedu. Fel hyn, byddant yn osgoi ymweliad gan Swyddogion Gorfodi Trwyddedu Teledu, a'r risg o gael eu herlyn a dirwy bosib.

## Beth fydd yn digwydd os bydd ar eich cleient angen trwydded ac yntau heb un?

Gall Swyddog Gorfodi Trwyddedu Teledu ymweld â'r cleientiaid hynny sydd angen Trwydded Deledu, ond sydd heb drwydded.

Maen nhw'n mentro cael eu herlyn a dirwy os bydd y Swyddog Gorfodi yn gweld iddyn nhw fod yn gwylio neu'n recordio rhaglenni teledu byw, neu'n lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer heb drwydded. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddyfais maen nhw'n ei defnyddio.

## Sut mae cyfeirio cleientiaid at y Cynllun Talu Syml?

Os oes gennych gleient a fyddai'n elwa ar y cynllun talu yma, gofynnwch iddyn nhw ein ffonio ar **0300 300 1030** neu fynd i **tvl.co.uk/sppfi** i gofrestru ar gyfer y Cynllun Talu Syml a sicrhau bod ganddyn nhw Drwydded Deledu. Bydd angen iddyn nhw ddefnyddio'r cyfeirnod canlynol: **DCHAR2**

Bydd ein cynghorwyr yn gallu arwain eich cleient trwy'r broses ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw. Pan fyddan nhw'n cofrestru ar gyfer y Cynllun Talu Syml, byddwn yn gofyn iddynt roi awdurdod i ganslo unrhyw drwydded bresennol sydd ganddyn nhw eisoes ar gyfer y cyfeiriad.

Mae canolfan alwadau'r Cynllun Talu Syml ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am tan 6.30pm, dydd Sadwrn 8.30am tan 1.00pm, ac ar gau ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus.

**Mwy o wybodaeth i gynghorwyr elusen ddyledion**

Os ydych yn gynghorydd ac angen rhagor o wybodaeth am y Cynllun Talu Syml, anfonwch e-bost atom yn:

**DebtCharitySupport@TVLicensing.co.uk**

PR/SPP/LFLT/04/24/5W

Cynllun Talu Syml.

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU